

Croeso i'n Harddangosfa

Pwy yw SP Manweb?

SP Manweb yw deiliad y drwydded dosbarthu trydan ar gyfer Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Cymru. Mae'n rhan o ScottishPower, sy'n un o is-gwmnïau'r cwmni Sbaenaidd, Iberdrola.

Cefndir y Prosiect

Mae'r DU yn wynebu her fawr wrth i'r galw am drydan gynyddu ar adeg pan mae gorsafoedd pŵer yn cau am eu bod wedi cyrraedd diwedd eu hoes a phan mae angen lleihau allyriadau er mwyn mynd i'r afael ar frys â newid yn yr hinsawdd. Er mwyn wynebu'r her hon, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio lleihau allyriadau a chynyddu faint o ynni carbon isel newydd sy'n cael ei gynhyrchu.

Bydd yn rhaid cysylltu'r ynni newydd â'r rhwydwaith trosglwyddo trydan foltedd uchel. SP Manweb sy'n gyfrifol am wneud hyn mewn ffordd ddiogel, ddibynadwy ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan y rhwydwaith y gallu i symud trydan ar draws y system o'r ardaloedd lle mae'n cael ei gynhyrchu i'r mannau lle mae galw amdano, gan gysylltu cynhyrchwyr trydan fel gorsafoedd pŵer a ffermydd gwynt â'r rhwydweithiau dosbarthu.

Gwaith yng Ngogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru wedi'i enwi fel lleoliad pwysig ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae nifer o ddatblygwyr yn awyddus i adeiladu ffermydd gwynt yn yr ardal ac mae SP Manweb yn cydweithio'n agos â hwy. Mae'r ffermydd gwynt arfaethedig wedi'u lleoli yn Ardal Chwilio Strategol A a'r cyffiniau – un o'r saith ardal a nodwyd yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8): Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru fel rhai cymharol anghyfyngedig ac a all gymryd datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr. Mae TAN 8 yn awgrymu y gallai gallu lefelau cynhyrchu arwyddol Ardal A fod yn 140 MW.

Mae gan SP Manweb gytundebau â phedwar o ddatblygwyr y ffermydd gwynt i'w cysylltu â'r rhwydwaith trydan. Mae'r rhain yn cynnwys Clocaenog, Brenig, Nant Bach a Derwedd Bach. Mae hyn yn golygu y bydd angen cysylltiadau lleol o'r ffermydd gwynt i'r is-orsaf casglu, is-orsaf newydd i gasglu'r ynni o'r ffermydd gwynt, a chysylltiad 132,000 folt (132kV) newydd at y rhwydwaith trosglwyddo cenedlaethol yn Llanelwy.

Diben yr Ymgynghoriad

Dyma'r cyntaf o nifer gamau yn yr ymgynghoriad cymunedol. Mae'r cam hwn yn disgrifio sut yr ydym yn bwriadu gwneud y cysylltiad, a pham. Mae'n egluro hefyd y gwaith y bydd angen ei wneud yn y dyfodol a'r effaith y gallai ei gael. Gall eich sylwadau ddylanwadu ar ein gwaith a chwarae rhan bwysig yn natblygiad y prosiect wrth iddo fynd yn ei flaen.

Bydd canlyniad y cam cyntaf hwn o'r ymgynghoriad yn helpu i benderfynu ar goridor y llwybr a ffefrir. Mae hwn yn goridor o dir cymharol lydan y gall y cysylltiad ei ddilyn. Y cam nesaf fydd diffinio'r opsiynau i alinio'r llwybr o fewn y coridor eang hwn. Byddwn yn cynnal ail gam yr ymgynghoriad cymunedol i gyflwyno'r llwybrau hyn ac i ofyn am eich adborth chi.

Dweud eich Dweud

Heddiw byddwn yn gofyn am eich adborth ar yr is-orsaf newydd a'r cysylltiadau 132kV newydd

Mae ffurflenni ar gael yn y digwyddiad hwn lle gallwch nodi'ch ymateb. Holwch aelod o'n tîm os hoffech gael rhagor o wybodaeth ar sut i gymryd rhan

Y Broses Gynllunio

Mae Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011) yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Arolygiaeth Gynllunio (PI) archwilio ceisiadau a helpu i symleiddio'r system gynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith mawr. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau mawr sy'n helpu'r economi a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol - daw llinellau trydan foltedd uchel uwchben o fewn y categori hwn. Bydd cais i gael caniatâd ar gyfer y prosiect hwn felly'n cael ei gyflwyno a chaiff ei benderfynu gan y PI. Hefyd, cynhelir Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol llawn.

Roedd Deddf Cynllunio 2008 yn cynnwys Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS). Mae'r rhain yn rhoi'r achos cenedlaethol dros ddatblygu seilwaith ac yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r PI. Mae dau NPS drafft yn berthnasol i'n prosiect ni, gyda'r ddau'n cefnogi mewn egwyddor yr angen am seilwaith ynni:

- *Datganiad Cyffredinol ar Ynni (EN-1) – sy'n cydnabod y bydd cynhyrchu ynni adnewyddadwy'n creu angen am rwydweithiau trydan newydd*

Fferm Wynt	Statws	Datblygwr
Wern Ddu	Gweithredol	Tegni
Braich Ddu	Gweithredol	Corwall Light & Power
Tir Mostyn a Foel Goch	Gweithredol	Windjen
Brenig	Y cynllun wedi'i gymeradwyo	Brenig Wind Ltd
Nant Bach	Y cynllun wedi'i gymeradwyo	Nuon Renewables
Derwedd Bach	Y cynllun wedi'i gymeradwyo	Tegni
Clocaenog	Heb wneud cais – yr Arolygiaeth Gynllunio wedi'i hysbysu	RWE npower Renewables
Llys Dymper	Cais wedi'i gyflwyno	Windpower Wales
Mynydd Mynyllod	Cais cyn-ymgeisio i gwmpasu wedi'i gyflwyno i'r PI	Scottish Power Renewables
Gorsedd Bran	Apêl wedi'i gadarnhau yn yr Uchel Lys	Tegni

- *Mae Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5) – yn sail i benderfyniadau a wneir gan yr IPC ar geisiadau a wneir iddo ar gyfer seilwaith rhwydweithiau trydan*

Cyn derbyn ein cais, rhaid i'r PI fod yn hapus bod ein hymgyngoriad cyn ymgeisio, sy'n cynnwys ymgyngoriad cymunedol, wedi cydymffurfio â'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol a bod y sylwadau a'r effeithiau a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hymgyngoriad wedi cael sylw teg. Bydd Adroddiad Ymgyngori'n cael ei gyflwyno fel rhan o'n cais. Bydd yr adroddiad hwn yn egluro sut yr ydym wedi cydymffurfio â gofynion yr ymgyngoriad fel yr amlinellwyd gan y PI.

Cysylltu'r Ffermydd Gwynt â'r Rhwydwaith Trydan – Pam Llanelwy?

Wrth gysylltu ffynonellau cynhyrchu trydan newydd â'r rhwydwaith trosglwyddo cenedlaethol, y cam cyntaf oedd penderfynu ym mhle yn y rhwydwaith y byddai'r cysylltiad yn digwydd. Er mwyn ein helpu i benderfynu hyn, buom yn edrych ar nifer o opsiynau posibl. Roedd y rhain yn cynnwys cysylltu ag is-orsaf oedd presennol SP Manweb yn Llanelwy a Legacy, Wrecsam. Buom yn edrych hefyd ar y posibilrwydd o gysylltu â llinell drosglwyddo 400kV uwchben bresennol y Grid Cenedlaethol i'r de o SSA A.

Edrychwyd ar bob opsiwn yn erbyn amryw o feini prawf, gan gynnwys dichonolrwydd technegol, effeithiau amgylcheddol a chymunedol a chost. Dangosodd hyn mai'r pwynt cysyllt gorau yw'r is-orsaf bresennol yn Llanelwy. Rhestrir y prif ffactorau sy'n sail i'r penderfyniad hwn gyferbyn:

- *Gallu'r rhwydwaith i gymryd cysylltiad newydd*
- *Yr angen i osgoi tirwedd sensitif, i'r graddau posibl, gan gynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd*
- *Yr angen i osgoi, i'r graddau posibl, effeithiau ar eiddo preswyl*
- *Yr angen i osgoi gwrthdaro â'r llinellau uwchben 400kV a 33kV presennol*
- *Hyd y cysylltiad sydd ei angen – mae cysylltiadau byrrach yn rhatach ac yn debygol o gael llai o effeithiau amgylcheddol a chymunedol*

Cysylltu â'r llinell drosglwyddo 400kV bresennol

Byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith trydanol i gysylltu â'r llinell 400kV bresennol. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r isafswm a gynhyrchid yn Ardal A TAN8 fod yn 300MW, sydd y tu hwnt i gyrhaeddiad y cysylltiadau presennol. Ni fyddai felly'n ymarferol o safbwynt economaidd.

Opsiwn – Diystyrwyd

Is-orsaf Legacy

Daeth nifer o gyfyngiadau amgylcheddol sylweddol i'r amlwg, gan gynnwys ehangu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd yn ddiweddar, gan y byddai'r cysylltiad arfaethedig yn gorfod mynd drwy'r ardal hon (gweler y map isod).

Opsiwn – Diystyrwyd

Is-orsaf Llanelwy

Daeth rhai problemau i'r amlwg ond ar y cyfan tybir mai hwn yw'r opsiwn lleiaf cyfyngedig. Mae'r tirlfurf a gorchudd y coed yn gyfle i greu llwybr sensitif a fyddai'n lliniaru'r effeithiau tebygol.

Opsiwn – Y pwynt cysylltu a ffeirir.

Sut Gwneir y Cysylltiad ?

Mae angen cysylltu'r ynni o'r ffermydd gwynt â'r rhwydwaith trosglwyddo trydan cenedlaethol cyn y gellir ei ddefnyddio yn ein cartrefi a'n busnesau

Cysylltu'r Ffermydd Gwynt ag Is-orsaf Gasglu newydd

Dylunio'r Is-orsaf

Nid oes dyluniad manwl o'r is-orsaf ar gael eto, ond bydd yn cynnwys safle tua 0.2ha (0.5 erw) wedi'i amgylchynu â ffens. Bydd yn cynnwys offer trydanol hyd at 10m o uchder ac adeilad rheoli bychan tua 9m o led x 13m o hyd x 3.5m o uchder. Bydd y trydan o'r ffermydd gwynt yn cyrraedd yr is-orsaf drwy ddargludyddion y llinell uwchben.

Bydd coed a llwyni lleol yn cael eu plannu o amgylch y safle'n helpu i'r is-orsaf doddi i'r dirwedd o'i chwmpas. Bydd y trydan o'r ffermydd gwynt yn mynd i mewn i'r is-orsaf drwy geblau tanddaearol.

Dewis o Dechnoleg

Wrth gynllunio cysylltiad newydd, bydd SP Manweb yn ystyried defnyddio ceblau tanddaearol, ceblau uwchben (ar bolion pren neu dyrau dur), neu gyfuniad o'r ddau. Rydym yn sylweddoli bod yn well gan y cyhoedd weld cysylltiadau'n cael eu rhoi o dan y ddaear fel arfer gan fod effaith weledol hynny'n llai, ond dim ond un o nifer o faterion y mae'n rhaid i ni eu hystyried yw hwn.

Er mwyn ein helpu i ddewis y dechnoleg gywir, buom yn astudio tirwedd yr ardal yn ofalus ac edrychwyd ar y prif nodweddion tirweddol a gweledol. Paratowyd cynllun o sensitifrwydd y dirwedd hefyd. Roedd hyn yn help i ganfod pa dirweddau lleol fyddai fwyaf addas i gymryd llinellau uwchben 132kV heb achosi niwed annerbyniol i'r dirwedd.

Deddf Trydan 1989

Fel deiliad trwydded cofrestredig mae gan SP Manweb nifer o ddyletswyddau ac ymrwymiadau o dan Ddeddf Trydan 1989. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i 'ddatblygu a chynnal system effeithlon, gydlynus ac economaidd i drosglwyddo trydan'. Mae'r gost o osod ceblau tanddaearol yn cael ei throsglwyddo i gwsmeriaid trydan drwy eu biliau. Mae gosod ceblau tanddaearol rhwng pump a saith gwaith yn uwch na llinellau uwchben ac felly ni ellir eu hystyried oni bai bod y buddiannau'n sylweddol fwy na'r costau.

Polion Pren Dwbl

- Mae polion pren dwbl yn 15m o uchder ar gyfartaledd ac mae cyfartaledd o 100m rhyngddynt.
- Mae'r polion yn cludo tri chebl gyda gwifren ddaear ychwanegol. Mae'r dargludyddion yn cael eu cynnal ar strwythur dur sydd ar ben y polion pren dwbl.
- Y dull hwn o gysylltu yw'r un mwyaf addas yn aml ar gyfer llwybr sensitif, mewn tir bryniog, ar raddfa fach.

Tyrau Dur – L4

- Mae tyrau L4 yn 26m o uchder ar gyfartaledd ac mae cyfartaledd o 180m rhyngddynt. Mae proffil y tŵr yn fain gyda gwaelod cul (4m x 4m) iddo. Gall y tyrau bod yn rhai cylched sengl, sy'n cludo llinell 132kV ar un ochr, neu rai cylched dwbl, sy'n cludo dwy linell 132kV, un ar bob ochr.
- Nid yw tyrau dur mor hyblyg ar lwybr sensitif ac maent yn fwy addas i dirweddau eang a chymharol wastad. Mae'r pellter rhyngddynt yn golygu eu bod yn ddefnyddiol i groesi dyffrynnoedd ag ochrau serth a fyddai'n rhy serth i bolion pren.

Ceblau tanddaearol

- Mae lled y ffosydd a ddefnyddir i osod ceblau tanddaearol tua 1.5m o led. Ar dir amaethyddol byddai angen tir tua 15-20m o led i wneud y gwaith. Gellir gosod ceblau mewn pibelli mewn ffyrdd neu ar draws caeau amaethyddol.
- Gall ceblau tanddaearol fod yn addas os oes pryderon difrifol ynghylch effeithiau andwyol posibl llinellau uwchben ar olygfeydd ac ar y dirwedd.

Canfod Coridorau i Lwybrau

lled rhwng 300m a 1300m yn ddibynnol ar amryw o gyfyngiadau. Mae'r coridorau'n arwyddol yn hytrach na therfynol – gall y llwybr terfynol fod ychydig y tu allan i'r coridor a ddangosir ar y mapiau. Yn achos y prosiect hwn, man cychwyn a diwedd y coridor yw'r is-orsaf newydd arfaethedig ger fferm wynt Brenig ac is-orsaf SP Manweb yn Llanelwly.

Cafodd Astudiaeth o Goridor y Lwybr ei pharatoi ar gyfer y prosiect. Mae'n nodi ac yn gwerthuso coridorau posibl yn erbyn amryw o gyfyngiadau. Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar Reolau Holford. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn ym 1959 ac maent yn cael eu hystyried o hyd fel y safon orau i'r diwydiant ar gyfer llinellau uwchben. Mae'r rheolau hyn yn argymhell y dylid osgoi ardaloedd pwysig â'r gwerth amwynderau uchaf.

Paratowyd asesiad o sensitifrwydd y dirwedd i linellau uwchben 132kV ar gyfer ardal yr astudiaeth ac fe'i defnyddiwyd i helpu i ddewis coridorau.

Mae trafodaethau â rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngorau Sir Conwy a Dinbych, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, RSPB a Chadw, wedi bod yn sail i'r arfarniad.

Lluniwyd rhestr fer o dri choridor, ac maent yn cael eu cyflwyno yma.

Mae'r coridorau a ddewiswyd gennym yn lleihau i'r graddau posibl yr effaith ar yr amgylchedd a chymunedau lleol.

Ystyriaethau ar gyfer Llwybrau

Amgylcheddol

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymunedau
- Tirwedd a golygfeydd
- Ecoleg, gan gynnwys coetiroedd
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Amwynderau preswyl
- Daeareg a hydroleg
- Priddoedd, coedwigaeth ac amaethyddiaeth
- Twristiaeth a hamdden
- Trafnidiaeth
- Effeithiau cronrus

Peirianyddol a thechnegol

Mae'r rhain yn ymwneud ag adeiladu a gweithredu'r llinell uwchben:

- Llinellau uwchben presennol
- Uchder
- Brigiadau tir
- Mannau sydd mewn perygl o lifogydd
- Llethrau serth
- Dyddodion mawn

Cynllunio

Mae'r rhain yn cynnwys ystyriaethau polisi sy'n ymwneud â'r DU gyfan a Chymru.

Ar lefel leol, mae'r ardal yn cael ei chynrychioli gan ddau awdurdod cynllunio, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae eu cynlluniau lleol yn cyfeirio at nifer o ddynodiadau polisi cynllunio perthnasol:

- Mannau sydd mewn perygl o lifogydd
- Dyraniadau Tai
- Dyraniadau Swyddi
- Safleoedd Mwynau
- Rhwystrau Gwyrdd/Mannau Agored a Warchodir
- Dyraniad Mannau Agored/Hamdden

Economaidd

O dan Ddeddf Trydan 1989, mae'n ofynnol ein bod yn cwblhau'r cysylltiad am y pris isaf posibl. Mae hyn yn golygu y dylai fod mor uniongyrchol â phosibl ac y dylai osgoi manau lle byddai anawsterau technegol neu ofynion talu iawndal yn cynyddu'r costau'n anghymesur.

Rheolau Holford

Yr egwyddorion cydnabyddedig ar gyfer llwybrau llinellau uwchben yn y DU yw 'Rheolau Holford'. Mae'r rheolau hyn yn cydnabod mai rhai gweledol yw prif effeithiau llinellau uwchben, ac mai'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r effaith weledol yw drwy greu llwybr gofalus ar gyfer tyrau trosglwyddo'r llinellau uwchben.

Yn ystod pob cam y broses o ganfod y llwybr, amgylchedd yr ardal a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno ac yn teithio drwyddi neu'n mwynhau hamdden ynddi, oedd prif ystyriaeth yr astudiaethau a'r asesiadau a gynhaliwyd i ategu'r broses. Mewn rhai lleoliadau, roedd angen cydbwysedd rhwng gwahanol effeithiau andwyol ar amrywiol agweddau ar yr amgylchedd, gan nad oedd yn bosibl bob amser i ganfod ateb a oedd yn cael gwared ar bob un o'r effeithiau andwyol mewn unrhyw un ardal.

Dywedwch eich barn

Rydym yn croesawu eich adborth ar y coridorau. Mae eich barn yn bwysig i ni a bydd yn helpu i ddylanwadu ar y penderfyniad ynghylch pa llwybr a ddewisir ar gyfer y coridor.

Cyflwynir mapiau sy'n dangos y coridorau ar y byrddau nesaf a gallwch gofrestru eich sylwadau ar un o'r ffurflenni adborth sydd ar gael. Holwch aelod o'n tîm os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Dweud eich Dweud

Adborth

Mae cynnwys pobl leol yn y prosiect yn bwysig dros ben i ni. Bydd siarad â chi yn ein helpu i ddeall yr hyn sydd ar eich meddwl ac unrhyw beth sy'n eich poeni.

Mae hon yn broses hir ac, fel y gwelwch o amserlen y prosiect, mae'n cynnwys sawl cam ymgynghori. Mae cam cyntaf yr ymgynghoriad yn dechrau'n awr gyda'r nod o glywed eich barn chi ar ba goridor a ffeirir gennych ac a oes unrhyw fannau sy'n arbennig o sensitif. Rydym yn cymryd sylw o'ch sylwadau a byddant yn ein helpu i symud ymlaen i gamau nesaf y broses benderfynu.

Mae mapiau o'r coridorau a ffurflenni adborth ar gael yma heddiw a gallwch fynd â hwy adref gyda chi.

Gallwch wedyn gyflwyno'ch sylwadau ar y cam cyntaf hwn o'r ymgynghoriad tan 10 Awst 2012.

Gallwch ddatgan eich barn mewn nifer o ffyrdd:

Dweud eich Dweud

- *Gallwch gyflwyno'ch sylwadau yn un o'n harddangosfeydd*
- *Gallwch anfon eich sylwadau i'r cyfeiriad isod:*

North Wales Wind Farms Connection
Environmental Planning
ScottishPower
3 Prenton Way
Prenton
Merseyside
CH43 3ET

Amserlen y Prosiect

Mehafin 2012:

Cam 1 yr Ymgynghoriad Cymunedol - Opsiynau ar gyfer Coridor y Llwybr

Haf 2012:

Cam 2 yr Ymgynghoriad Cymunedol - Adborth ar Goridor y Llwybr

Hydref 2012:

Cam 3 yr Ymgynghoriad Cymunedol Opsiynau Diffiniedig ar gyfer y Llwybr

Gaeaf 2012:

Adolygiad ac Adborth
Cam 4 yr Ymgynghoriad Cymunedol Y Cynigion

2013:

Adolygiad
Cam 5 yr Ymgynghoriad Cymunedol Cyflwyno Caniatâd Cyn Datblygu

Y Camau Nesaf

Bydd yr holl sylwadau a gawn yn cael eu cyfuno â'r astudiaethau amgylcheddol a thechnegol a wnaethpwyd gennym i'n helpu i benderfynu pa goridor a fabwysiedir i ddatblygu opsiynau i alinio'r llwybr. Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth fydd canlyniad y broses hon.

Yn nhrydydd cam yr ymgynghoriad byddwn yn cyflwyno ac yn gofyn am eich barn am yr opsiynau i alinio'r llwybr o fewn y coridor a ddewiswyd. Byddwn yn rhoi cyhoeddu'rwydd eang i'r cam hwn o'r ymgynghoriad.

Bydd astudiaethau amgylcheddol a thechnegol manwl pellach a chanlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i ddewis aliniad y llwybr a ffeirir. Bydd y cynigion wedyn yn cael eu dylunio'n fanwl.

Y Broses EIA

Mae Cyfarwydddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol Ewrop yn datgan bod yn rhaid cynnal Datganiad Amgylcheddol (ES) sy'n disgrifio pa agweddau ar yr amgylchedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y prosiect. Bydd Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol llawn yn cael ei gynnal o'r cynigion i asesu'r effeithiau positif neu negyddol posibl y gall y cynigion eu cael ar agweddau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yr amgylchedd. Bydd yn galluogi'r Arolygiaeth Gynllunio i ddeall effeithiau posibl y prosiect ac i ddeall sut y gallai dyluniad sensitif leihau'r effeithiau hynny drwy fesurau lliniarol.

Cysylltu â Ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau dewch draw i gael gair ag aelod o dîm y prosiect.

Cewch ragor o wybodaeth am SP Manweb a grŵp ScottishPower yn www.spenenergy networks.co.uk.